TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BPEC ACS Gas Reassessments (CENWAT1, CKR1, HTR1, MET1)

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi'u cofrestru'n ddiogel o ran nwy ac sydd i ehangu cwmpas eu gwaith a datblygu eu gyrfa yn y diwydiant nwy.

Bydd y cwrs hwn yn caniatáu chi i adnewyddu eich cymwysterau nwy ACS cyfredol, sydd eu hangen bob 5 mlynedd.

Ar ôl cwblhau eich ailasesiadau, byddwch yn gallu cynnal asesiadau mewn unedau newydd a fydd yn ymestyn cwmpas eich gwaith, ac yn eich galluogi i ddatblygu eich gyrfa yn y diwydiant nwy.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un dros 19 oed, yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £29,534 y

flwyddyn.

...am gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa yn y diwydiant nwy.

...unrhyw un sydd eisiau parhau i fod yn Gosodwr Nwy cofrestredig.

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn cynnal asesiadau sy'n ymwneud â'r ystod o waith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd, ar ôl hyn gallwch chi gynnal hyfforddiant ac asesiadau mewn meysydd gwaith newydd.

Mae angen yr ailasesiadau hyn os ydych yn dymuno parhau i fod yn osodwr nwy cofrestredig ac os ydych am ddatblygu eich gyrfa yn y diwydiant.

Ar ôl cwblhau eich ailasesiadau, byddwch yn derbyn tystysgrifau newydd gan y corff dyfarnu, gan gynnwys unrhyw unedau newydd yr ymgymerir â hwy, a fydd yn ddilys am bum mlynedd, a bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i GasSafe

Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi eisoes feddu ar dystysgrif nwy ACS yn yr unedau rydych chi am eu heistedd (ailasesu).

Bydd angen i chi feddu ar dystysgrif nwy ACS ddilys, ddyddiedig er mwyn cwblhau unedau newydd, a gallu tystio hyfforddiant yn yr unedau newydd. (Gellir eistedd yr asesiadau hyn ar yr un pryd â'ch ailasesiadau, ar yr amod eich bod wedi cynnal hyfforddiant cyn hyn).

Bydd angen rhoi'r dystiolaeth hon i'r ganolfan asesu cyn y gallwch gynnal unrhyw asesiadau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd dyddiadau a lleoliad y cwrs yn cael eu trafod yn ystod y cais.